# Cymru: penderfyniadau pwyllgor Tachwedd 2024

02/01/2025
See all updates
Rhestr o Benderfyniadau a wnaed gan Bwyllgor Cymru Cronfa Treftadaeth y Loteri ar 28 Tachwedd 2024.
Penderfyniadau ariannu

## Ceisiadau rownd ddatblygu Treftadaeth 2033

### Ein afon – Cleddau – our river

Ymgeisydd: PEMBROKESHIRE LOCAL ACTION NETWORK FOR ENTERPRISE AND DEVELOPMENT LIMITED

Disgrifiad o'r prosiect: Bydd y prosiect hwn sy’n seiliedig ar le, a grëwyd ar y cyd â’r gymuned, yn archwilio, yn rhannu ac yn dathlu’r dirwedd, ecoleg, treftadaeth a diwylliant cymhleth sy’n aml yn gwrth-ddweud ei gilydd ar hyd Afon Cleddau yng nghanol Sir Benfro. Fel y mae'r aber a llednentydd yr afon yn cysylltu Sir Benfro â'r byd, bydd y prosiect yn cysylltu'r gymuned â'n treftadaeth a rennir.

Penderfyniad: Gwrthod

### Lost Peatlands – Landscape Connections Project

Ymgeisydd: Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Disgrifiad o'r Prosiect: Cyflwyno prosiect amlddisgyblaethol ar raddfa’r dirwedd i adfer, cysylltu a gwarchod treftadaeth naturiol a diwylliannol Cymoedd De Cymru er budd y bobl a’r blaned. Galluogi adferiad byd natur ac addasu i newid yn yr hinsawdd trwy adfer/rheoli cynefinoedd, gwella cysylltedd a chadwraeth rhywogaethau bywyd gwyllt allweddol. Darparu cyfleoedd i gymunedau wella addysg, sgiliau a llesiant, a hyrwyddo creu lleoedd a gwarchod hunaniaeth ddiwylliannol trwy ddatgelu stori newid yn y dirwedd a sut mae pobl wedi rhyngweithio ag ef dros amser.

Penderfyniad: Dyfarniad grant rownd Datblygu o £263,309 (79% o gyfanswm costau datblygu cymwys) gyda grant cyflwyno posibl o £1,933,490 (76% o gyfanswm costau cymwys y prosiect)

### Gregynog: Codi'r To

Ymgeisydd: Ymddiriedolaeth Gregynog

Disgrifiad o'r Prosiect: Mae prif ffocws y prosiect yn cynnwys atgyweiriadau brys ar y to, cadwraeth adeiladau yn gyffredinol, a gwell hygyrchedd ac ymgysylltiad cyhoeddus.

Penderfyniad: Dyfarniad grant rownd Datblygu o £866,591 (90% o gyfanswm costau datblygu cymwys) gyda grant cyflwyno posibl o £4,100,729 (90% o gyfanswm costau cymwys y prosiect)

## Ceisiadau rownd gyflwyno'r FfAS

Un eitem sydd eto i'w chyhoeddi.